



PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS
DDYDD LLUN, 10 IONAWR 2022 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry - Cadeirydd
Y Cynghorydd C. Andrews - Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs E.M. Aldworth, P. J. Bevan, A. Collis, W. David, A. Farina-Childs, D. Havard, B. Miles,
J. E. Roberts a Mrs J. Stone.

Y Cynghorydd R. Whiting, (Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden)

Ynghyd â:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), L. Thomas (Ysgolion yr 21ain Ganrif - Prif Swyddog), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac ADY), M. Jacques (Swyddog Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor) ac M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau'r Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Addysg Archesgobaeth Gatholig Caerdydd), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr) a Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr).

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd J. Pritchard.

TREFNIADAU RECORDIO

Atgoffodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. [Cliciwch yma i'w wyllo.](#)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. T. Hardacre, M. P. James, Mrs B. A. Jones, Mrs G. D. Oliver a J. Simmonds.

2. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd J. Pritchard fuddiant yn Eitem Agenda rhif 9 - Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif - Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned: Ysgol Gynradd Plasyfelin, fel Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Plasyfelin. Nodwyd bod y Cynghorydd J. Pritchard yn bresennol i arsylwi ar y cyfarfod. Mae'r manylion wedi'u cofnodi gyda'r eitem berthnasol hefyd.

3. COFNODION – 2 TACHWEDD 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ddydd Mawrth 2 Tachwedd 2021 (rhifau 1-10 yn y cofnodion) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

4. COFNODION – 2 RHAGFYR 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Rhagfyr 2021 (rhifau 1-3 yn y cofnodion) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIR AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

6. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad a oedd yn amlinellu manylion Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2022 a Mawrth 2022 ac roedd yn cynnwys yr holl adroddiadau a nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Flaenraglen Waith, ochr yn ochr â Blaenraglen Waith y Cabinet, cyn ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Cynigiwyd y dylid ychwanegu adroddiad ar ddarparu staff addysgu cyfrwng Cymraeg at Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg.

Cynigiwyd hefyd, pan fydd y Pwyllgor Craffu Addysg yn ystyried yr adroddiad ar y Cwricwlwm i Gymru, y dylid rhoi cyfle i'r Aelodau edrych ar y Dyniaethau sy'n ymdrin ag addysgu hanes mewn ysgolion.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar y newidiadau a gynigiwyd, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion. Drwy gadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 13 pleidlais o blaid, 1 bleidlais yn erbyn a dim ymatal) cytunwyd ar hyn gyda mwyafrif.

PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar wefan y Cyngor.

7. ADRODDIADAU'R CABINET

Nid oedd yr un o adroddiadau'r Cabinet a restrwyd ar yr agenda wedi'u galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

ADRODDIADAU SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

8. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF - ADRODDIAD YMGYNGHORI: YSGOL IAU LLANCAEACH/YSGOL FABANOD LLANFABON

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad i ddiweddarau Aelodau Craffu mewn perthynas â chynnig Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif mewn perthynas ag uno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon i greu darpariaeth Ysgol Gynradd newydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cynigion Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi mynd i ymgynghoriad ffurfiol rhwng 20 Hydref 2021 a 1 Rhagfyr 2021 ac anogwyd ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd, cymuned yr ysgol, aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Estyn. Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Ymgynghori sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad, a oedd yn crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion.

Cododd Aelod nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r Adroddiad Ymgynghori a dywedodd fod cyfanswm cyffredinol o 11 o ymatebion a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori ychydig yn siomedig. Cyflwynodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif gyflwyniad cryno ar yr Adroddiad Ymgynghori i ateb rhai o'r pwyntiau a godwyd. Nododd yr Aelod fod y cynnig yn rhoi ystyriaeth addas i adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol a gofynnwyd am eglurhad a gwybodaeth bellach mewn perthynas ag ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a strwythur y corff llywodraethu. Dywedodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif wrth y Pwyllgor Craffu y byddai'r corff llywodraethu'n cael ei sefydlu pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Byddai swyddogion yn gweithio gyda'r cyrff llywodraethu presennol i sicrhau cyfnod pontio llyfn ac, os oes angen, yn ffurfio cydweithrediad cynnar. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg wrth y Pwyllgor Craffu nad oedd unrhyw bryderon ynglŷn ag arweinyddiaeth yn y naill ysgol na'r llall. Clywodd yr Aelodau sut roedd y rhesymau dros gyfuno yn cael eu gyrru gan ddaearyddiaeth yn hytrach nag unrhyw faterion arweinyddiaeth.

Gofynnodd yr Aelod hefyd am eglurhad mewn perthynas ag effaith y cynigion ar blant ag Anghenion Addysgol Arbennig. Dywedodd yr Arweinydd Cynhwysiant ac ADY wrth y Pwyllgor Craffu fod effaith y cyfnod pontio yn hanfodol yn hyn o beth ac mai gwaith a wneir gan y Cyngor fyddai hyn ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud i uno. Tynnodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif sylw hefyd at y ffaith y byddai disgyblion Ysgol Iau Llancaeath ag Anghenion Addysgol Arbennig eisoes yn gyfarwydd ag Ysgol Fabanod Llanfabon am eu bod wedi mynychu'r safle hwn ers y dosbarth meithrin, felly byddai'r elfen o newid yn fach iawn.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau, rhoddodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif sicrwydd y byddai'r Tîm Ymgynghoriaeth Adeiladu yn ymwneud â'r cynigion hyn ac yn tynnu sylw at y profiad y byddent yn ei gyflwyno i'r prosiectau dan sylw.

Ar ôl ystyried a thrafod yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion gael eu cymeradwyo. Ar ffurf Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, cyn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet, y dylai'r Pwyllgor Craffu Addysg:

- a) Ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Ymgynghori.
- b) Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet fynd ymlaen i Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig i greu darpariaeth Ysgol Gynradd newydd drwy uno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon.

9. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF - ADRODDIAD YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED: YSGOL GYNRADD PLASYFELIN.

Datganodd y Cynghorydd J. Pritchard fuddiant yn Eitem Agenda rhif 9 - Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif - Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned: Ysgol Gynradd Plasyfelin, fel Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Plasyfelin. Nodwyd bod y Cynghorydd J. Pritchard yn bresennol i arsylwi ar y cyfarfod.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad i ddiweddarau Aelodau Craffu mewn perthynas â chynnig Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Plasyfelin newydd ar dir safle presennol yr ysgol. Nodwyd bod y cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin wedi'i eithrio o'r prosesau ymgynghori a amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Fodd bynnag, ymgysylltwyd â'r ysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach drwy gydol y broses yn unol â fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Awdurdod i alluogi proses gwneud penderfyniadau dryloyw ac agored. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cynnig Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin wedi mynd i ymgynghoriad ffurfiol rhwng 20 Hydref 2021 a 1 Rhagfyr 2021. Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad, a oedd yn crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion.

Cyflwynodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif gyflwyniad cryno ar yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned.

Gofynnodd un Aelod am sicrwydd y byddai iechyd a diogelwch disgyblion yn cael ei gynnal yn ystod unrhyw waith adeiladu a dymchwel. Sicrhaodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif yr Aelodau y byddai iechyd a diogelwch disgyblion a staff yn hollbwysig yn ystod gwaith ar y safle. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd y cynnig yn destun proses ceisiadau cynllunio, dan arweiniad Tîm Ymgynghoriaeth Adeiladu profiadol. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, dywedodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif wrth y Pwyllgor Craffu fod y safle'n caniatáu i waith adeiladu gael ei ffensio heb amharu ar ddisgyblion.

Ar ôl ystyried a thrafod yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion gael eu cymeradwyo. Ar ffurf Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, cyn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet, y dylai'r Pwyllgor Craffu Addysg:

- a) Ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned.
- b) Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet fynd ymlaen i'r Cam Cais Cynllunio.
- c) Cymeradwyo'r argymhelliad i fynd ymlaen i'r Achos Busnes Llawn.

10. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF - ADRODDIAD YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED: CANOLFAN AR GYFER DYSGWYR SY'N AGORED I NIWED (UNED CYFEIRIO DISGYBLION).

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad i ddiweddarau Aelodau Craffu mewn perthynas â chynnig Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ymwneud â sefydlu Canolfan newydd ar gyfer Dysgwyr sy'n Agored i Niwed (Uned Cyfeirio Disgyblion). Nodwyd bod Unedau Cyfeirio Disgyblion wedi'u heithrio o'r prosesau ymgynghori a amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Fodd bynnag, ymgysylltwyd â'r ysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach drwy gydol y broses yn unol â fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Awdurdod i alluogi proses gwneud penderfyniadau dryloyw ac agored. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cynnig Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer sefydlu Canolfan newydd ar gyfer Dysgwyr Sy'n Agored i Niwed (Uned Cyfeirio Disgyblion) ym Mhontllan-fraith wedi mynd i ymgynghoriad ffurfiol rhwng 20 Hydref 2021 a 1 Rhagfyr 2021. Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad, a oedd yn crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr

ymgyngoreion.

Cyflwynodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif gyflwyniad cryno ar yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned.

Mynegwyd pryder ynglŷn â nifer y dysgwyr sydd wedi'u hanfon allan o'r sir a holwyd a fyddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Dywedodd yr Arweinydd Cynhwysiant ac ADY wrth y Pwyllgor Craffu y byddai angen darpariaeth breswyl ar rai plant ag anghenion cymhleth o hyd, ond byddai sefydlu Canolfan ar gyfer Dysgwyr sy'n Agored i Niwed (Uned Cyfeirio Disgyblion) yn diwallu anghenion plant ym mwrdeistref Caerffili. Esboniodd y Swyddog hefyd y gellid parhau i ddefnyddio rhywfaint o ddarpariaeth wedi'i chaffael. Mewn ymateb i gwestiwn Aelod ynglŷn â nifer y disgyblion yng Nghanolfan Ddysgu Glan-y-Nant, cadarnhawyd y byddai tua 42 o ddisgyblion.

Ar ôl ystyried a thrafod yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion gael eu cymeradwyo. Ar ffurf Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, cyn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet, y dylai'r Pwyllgor Craffu Addysg:

- a) Ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned.
- b) Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet fynd ymlaen i'r Cam Cais Cynllunio.
- c) Cymeradwyo'r argymhelliad i fynd ymlaen i'r Achos Busnes Llawn.

Cofnododd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden ei ddiolch i'r Pwyllgor Craffu Addysg am gefnogi'r cynigion a hefyd i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif am eu holl waith mewn perthynas â'r cynigion a'r broses ymgynghori.

10. HUNANARFARNU

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y broses hunanarfarnu a'i heffaith ar gynllunio strategol a hefyd i godi ymwybyddiaeth o gyfraniad hunanarfarnu tuag at weithredu strategaeth addysg ddiwygiedig. Rhoddodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion fwy o fanylion i'r Pwyllgor Craffu am yr adroddiad ac amlinellodd yr ystod o weithgareddau hunanarfarnu sy'n digwydd ar draws y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Cyfeiriodd Aelod at yr ystod o flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer 2021-22 a nodwyd drwy'r Cynllun Gwella Gwasanaethau a chododd ymholiad mewn perthynas â'r disgyblion mwy abl a thalentog. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion fod adroddiadau monitro a gwerthuso yn cael eu derbyn ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog ac mae'n faes a fyddai'n cael ei gynnwys yn y Cynllun. Dywedwyd wrth yr Aelodau y cynhelir cyfarfod gyda'r Cydlynnydd Mwy Abl a Thalentog a Phrosiect Seren i nodi cerrig milltir.

Ar ôl ystyried yr eitem, nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.05 am.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 15 Chwefror 2022, fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

CADEIRYDD